

Nodyn Canllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol 1

Nodyn Canllaw 1: Pa fath o ddatblygiadau sy'n agored i dalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol? Pa fath o ddatblygiadau sy ddim yn agored i dalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn agored i dalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Pa fath o ddatblygiadau sy'n agored i dalu'r ardoll yn Rhondda Cynon Taf?

Yn Rhondda Cynon Taf, bydd yr ardoll yn berthnasol i:

Datblygiad preswyl – anheddau newydd, o unrhyw faint, sy wedi'u haddasu neu'u hadeiladu o'r newydd, yn ogystal ag unrhyw adeiladau atodol ac unrhyw arwynebedd llawr preswyl arall o faint 100m² a mwy (gan gynnwys estyniadau) yn amodol ar unrhyw ryddhadau sy'n gymwys.

Gwagle llawr preswyl sy'n cynnwys holl lorïau adeilad, gan gynnwys atigau ac islorïau y gellir byw ynddyn nhw a phob adeilad atodol, fel garej, ystafell wydr (conservatory) a shed. Bydd elfennau o ddatblygiad sy ddim yn gwrthsefyll y tywydd fel mannau parcio ceir croes, llwybrau cerdded sy wedi'u gorchuddio a balconïau allanol wedi'u heithrio.

Datblygiad manwerthu Dosbarth A1 (gan gynnwys estyniadau) sy'n fwy na 100m².

Cyfeiriwch at **Restr Codi Tâl** y Cyngor am gyfraddau'r Ardoll.

Rhaid cyflwyno **Ffurflen Cwestiynau Ychwanegol Ardoll Seilwaith Cymunedol** ar gyfer y mathau yma o geisiadau. Bydd yr wybodaeth yn y ffurflen yma yn ein galluogi ni i gyfrifo'r gyfradd gywir. Fydd cais cynllunio **ddim** yn cael ei ddilysu hyd nes y caiff y **Ffurflen Cwestiynau Ychwanegol** ei chyflwyno. Bydd hyn yn berthnasol, hyd yn oed os bydd cyfradd datblygiad wedi'i phennu ar £0, neu hyd yn oed os bydd modd iddo fuddio o unrhyw fath o ostyngiad.

Nodyn Canllaw Ardoll Seilwaith Cymunedol 1

Pa fath o ddatblygiad sy ddim yn agored i dalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol?

Fydd y mathau yma o ddatblygiad ddim yn talu ardoll:

- datblygiad sy'n llai na 100m². Os yw'r datblygiad yn annedd newydd, bydd yn atebol i dalu'r ardoll.
- tai, fflatiau, rhandai preswyl ac estyniadau preswyl y mae 'hunan adeiladwyr' yn eu hadeiladu (yn amodol ar ofynion cymhwys)
- tai cymdeithasol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn gostyngiad
- datblygiad elusennol sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn gostyngiad
- adeiladau dydy pobl ddim fel arfer yn mynd ynddyn nhw
- adeiladau y mae pobl fel arfer yn mynd ynddyn nhw am gyfnod byr yn unig, at ddibenion arolygu neu gynnal a chadw offer sy wedi'u torri
- strwythurau sy ddim yn adeiladau, fel tyrbinau gwynt a pheilonau
- mathau penodol o ddatblygiadau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi penderfynu eu bod ar gyfradd sero, fel y nodir yn y Rhestr Codi Tâl
- adeiladau gwag sy wedi'u dychwelyd i ddefnydd

Os yw cost yr ardoll sy'n atebol yn llai na £50, ystyrir y swm sy'n daladwy yn sero, felly does dim angen talu ceiniog.

Mesanau sy'n llai na 200m² sy wedi'u gosod ar loriau adeiladau presennol - dydyn nhw ddim yn agored i dalu'r ardoll oni bai eu bod yn rhan o ganiatâd cynllunio ehangach sy'n ceisio cyflawni gwaith arall hefyd.

Mae mathau eraill o ddatblygiadau, fel datblygiadau at ddefnydd gwaith a hamdden, ar gyfradd sero, felly does dim angen talu ceiniog.

Beth os mae'r wybodaeth yn anneglur?

Os nad yw hi'n glir ynghylch pa un a fydd datblygiad yn agored i dalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ai peidio, rydym ni'n argymhell y dylid cyflwyno'r **Ffurflen Cwestiynau Ychwanegol**. Bydd modd wedyn i'r Cyngor benderfynu a fo'r datblygiad yn agored i dalu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.